## Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Dinbych-y-pysgod

## Teithiau Hanner Dydd a Mwy

**GRADDFA:** 0 — 300 — 600 m

**PELLTER/HYD:** 4.6 milltir (7.4 km) 2 awr

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Bws gwasanaeth Dinbych-y-pysgod 349/359/350/351/352/353/360/361/381/333/390, Railway station

**CYMERIAD:** Traeth, coed, caeau a da byw, rhodfa


**CHWILIWCH AM:** Tref Hanesyddol • Aber siltiog y Rhydeg

**CYMRWCH OFAL!**

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

**ALLWEDD**

- Llwybr Cylch
- Llwybr Arfordir Sir Benfro Llwybr Cenedlaethol
- Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toiledau Cyhoeddus
- Safle Bws
- Gorsaf Rheilffordd




© Hawlfraint y Goron. Cedwir pop hawl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 100022534, 2004.

# Dinbych-y-pysgod
## Teithiau Hanner Dydd a Mwy

**Hyd:** 2 awr

**Pellter:** 4.6 milltir (7.4 km)

**Cludiant cyhoeddus:** Bws gwasanaeth Dinbych-y-pysgod 349/359/350/351/352/353/360/361/381/333/390, Gorsaf rheilffordd.

**Grid ref:** SN129004

***Mae Dinbych-y-pysgod yn un o gyrchfannau arfordirol mwyaf poblogaidd Cymru, ond mae yna lawer mwy i'r ardal na'i thraethau.***

**Chwiliwch am:** Tref Hanesyddol, Aber siltiog y Rhydeg .

Mae Dinbych-y-pysgod yn dref sydd â chyfoeth o hanes archeolegol. Mae wrth galon olion waliau o'r drydedd ganrif ar ddeg, a atgyfnerthwyd yn 1457 gan Jasper Tudor, ac yna unwaith eto yn y 1580au yn erbyn bygythiad ymosodiad gan Sbaen. Mae Five Arches yn un o'r giatiau gwreiddiol i'r dref a'r unig un i oroesi, tra bod Belmont Arch yn cysylltu Rhodfa St Florence a'r Paragon.

Uchafbwyntiau eraill yw Eglwys y Santes Fair a'r Tŷ Masnachu Tuduraidd ar Rhiw'r Cei (y ddau o'r pymthegfed ganrif).

Mae yna ddau brif draeth yn Ninbych-y-pysgod, Traeth y Gogledd a Thraeth y De, wedi eu rhannu gan Rhiw'r Castell gydag olion y gaer o'r drydedd ganrif ar ddeg a gorsaf y bad achub. Mae yna rodfa wych yn edrych allan dros Draeth y Gogledd gyda chefndir o dai Georgaidd a Fictoraidd o liwiau pastel, tra bod Traeth y De yn ehangder hir o draethau euraidd ar gefndir o dwyni tywod gydag Ynys Sant Catherine a'i amddiffynfeydd Fictoraidd a golygfeydd at Ynys Bŷr.

Mae'n werth ymweld ag Ynys Bŷr, mae'n un o Ynysoedd Sanctaidd Prydain ac wedi bod yn gartref i gymuned grefyddol ers y chweched ganrif. Y mynachod cyntaf oedd mynachod o'r Eglwys Geltaidd, ond mae'r ynys hefyd wedi bod yn gartref i gymunedau Benedictaidd a Sistersaidd (y trigolion presennol).

**Cymeriad:** Traeth, coed, caeau a da byw, rhodfa.



